


# Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd

2023-2027

Cynllun ar y Cyd
Swyddfa Comisiynydd Heddlu a
Throsedd Gogledd Cymru a
Heddlu Gogledd Cymru

**HEDDLU**
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
**POLICE**

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU**
**A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME**
**COMMISSIONER** NORTH WALES

87975.

# Cynnwys


Rhagair ... 3

1. Cyflwyniad ... 5

2. Gogledd Cymru ... 7

3. Ein Nod ... 8

4. Dyletswyddau Penodol yng Nghymru ... 9

5. Y Gymraeg ... 10

6. Cynlluniau Cenedlaethol mewn Cyd-destun ... 11

   6.1 Llywodraeth Cymru ... 11

   6.2 Cynlluniau Plismona Cenedlaethol ... 11

7. Sut wnaethom ddatblygu ein hamcanion ... 13

8. Ein Hamcanion ... 15

9. Sut y gwnawn gyflawni ... 16

# Rhagair gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl

Croeso i Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd 2023-2027 Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn elfennau hanfodol mewn plismona. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y gwnawn fodloni'r heriau cydraddoldeb a wynebwn yn y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys sut y gwnawn fodloni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Ni all y gwasanaeth heddlu wneud ei waith heb ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd. Rhaid i ni wybod a pharchu ein cymunedau er mwyn gallu cynnig gwasanaeth plismona effeithiol. Rydym yn plismona drwy ganiatâd. Rhaid i wasanaethau gael eu cyflawni mewn ffordd deg a chyson, gan gynnal hawliau dynol bob amser. Rydym yn hyfforddi ac yn paratoi ein staff er mwyn gwneud hyn ac rydym wedyn yn monitro cyflawni gwasanaeth. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda grwpiau ac unigolion o'n cymunedau. Rydym yn mynd ati i wrando ar safbwyntiau a barn gan holl rannau o gymdeithas am y problemau sy'n bwysig a'n heffeithiolrwydd wrth ymdrin â nhw.

Rydym yn gwasanaethu cymunedau amrywiol iawn yng Ngogledd Cymru. Rydym wedi ymroi cyflwyno gwasanaeth o ansawdd uchel i bawb. Mae'n hanfodol fod ein swyddogion heddlu a staff yn gallu ymgysylltu gyda'r bobl wahanol yn ein cymunedau er mwyn cyflawni gwasanaeth plismona sy'n briodol i'w hanghenion. Mae hefyd yn bwysig fod y rhai hynny sy'n gweithio i ni yn adlewyrchu'r cymunedau sy'n byw a gweithio yng Ngogledd Cymru. Rydym yn gweithio'n galed er mwyn sicrhau fod ein gweithlu yn wirioneddol gynrychioli'r bobl hynny a wasanaethwn.

Mewn byd cyfnewidiol, mae blaenoriaethau plismona yn addasu er mwyn bodloni anghenion y bobl yn ein cymunedau dros amser. Er bod llawer iawn o gynllunio ac ymchwilio yn mynd er mwyn sefydlu blaenoriaethau plismona, rhaid i'r gwasanaeth hefyd allu ymateb yn ddynamig ac yn effeithiol i faterion sy'n dod i'r amlwg.

Yn genedlaethol rydym wedi gweld enw da'r gwasanaeth heddlu wedi'i niweidio gan weithrediadau erchyll gan swyddogion heddlu, ynghyd â'r safonau ymddygiad gwael a fanylir yn Adroddiad Ymgyrch Hotton. Mae wedi bod yn bwysig i Heddlu Gogledd Cymru sicrhau fod ei staff a'i weithdrefnau'n addas i'r diben. Nid oes gan gasineb at ferched, trais yn erbyn merched a chamymddygiad rhywiol le yn y gwasanaeth heddlu.

Mae ein hadroddiad sy'n manylu sut yr ymdrinnir â chamymddygiad yng Ngogledd Cymru ar gael ar wefan SCHTh. Mae wedi bod yn bwysig i ni ddangos ein hymateb lleol i themâu a all fod wedi codi tu allan i Ogledd Cymru.

Rhaid i ni fod yn weithredol wrth ddeall ymddygiad a diwylliant y sefydliad a sicrhau ei bod yn briodol ac yn addas er mwyn gwasanaethu'r bobl. Mae'r cynllun hwn yn manylu'r gwaith sydd gennym mewn lle er mwyn deall ein gweithlu a sicrhau diwylliant cadarnhaol a thryloyw sy'n gweithredu gyda gostyngeiddrwydd ac uniondeb.

Rydym yn ceisio deall mathau amrywiol o drosedd a'i effaith ar gymunedau yng Ngogledd Cymru. Mae sicrhau y cyflwynir gwasanaethau plismona yn deg a phriodol yn her allweddol i'r Heddlu a'r Comisiynydd. Gwnawn fonitro cyflawniad yn erbyn y cynllun cydraddoldeb. Gwnawn adolygu ac asesu gweithgarwch yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn symud ymlaen i wella cydraddoldeb.

Rydym yn sicrhau y gwnawn, gyda'n gilydd, wneud ein gorau glas i sicrhau fod pobl Gogledd Cymru yn cael Gwasanaeth Heddlu effeithiol ac effeithlon sy'n bodloni anghenion ein cymunedau i gyd.

Hoffem ddiolch i bawb, yn fewnol ac yn allanol, sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r cynllun hwn. Gwnawn weithio'n ddiwyd er mwyn sicrhau fod ein dau sefydliad yn cyflawni'r amcanion a osodwyd.





**Andy Dunbobbin**,
Comisiynydd Heddlu a
Throsedd Gogledd Cymru





**Amanda Blakeman**,
Prif Gwnstabl,
Heddlu Gogledd Cymru

# 1. Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn amlinellu ein hymateb i Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n amlinellu'r Ddyletswydd Gyffredinol, a adwaenir hefyd fel Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. O dan y Ddeddf rhaid i'r Comisiynydd a'r Heddlu ystyried angen:

*a)* *Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan neu o dan y Ddeddf*

*b)* *Hyrwyddo cyfle cyfartal uwch rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl sydd ddim yn ei rhannu*

*c)* *Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a phobl sydd ddim.*

Y dyletswyddau penodol a osodir ar yr Heddlu a'r Comisiynydd fel cyrff cyhoeddus yw:

- Gosod amcanion cydraddoldeb. Mae'r rhain yn gerrig milltir i anelu tuag at sicrhau gwelliannau mewn cyflawni cydraddoldeb ac yn ein cynorthwyo i fodloni'r dyletswyddau cyffredinol.
- Cyhoeddi gwybodaeth ddigonol am gydraddoldeb i arddangos cydymffurfiaeth gyda'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol.
- Cynnwys gwybodaeth ar effaith polisi ac arferion ar bobl sydd â "nodwedd warchodedig" benodol (mae hyn yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr).
- Dadansoddi tystiolaeth polisi ac arfer ac ystyried manylion gwybodaeth.
- Rhoi manylion ymgysylltiad a ymgymerwyd.
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol yn tynnu sylw at gynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn. Rhaid i'r adroddiad hwn gael ei greu erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn.

Y nodweddion gwarchodedig a gyfeirir atynt ydy:

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu Gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd Rhywiol



Er bod Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn gyrff cyhoeddus yng Nghymru, llywodraethir plismona'n ganolog gan y Swyddfa Gartref. Mae Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd felly wedi'u rhwymo'n gyfreithiol gan y dyletswyddau penodol sy'n berthnasol yn Lloegr. Mae'r rhain ychydig yn wahanol i'r dyletswyddau penodol a osodwyd yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, parhawn i weithio'n agos â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru wrth baratoi a gweithredu ein Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb. Rydym wedi ceisio gosod amcanion sy'n gyson gyda rheoliadau Cymru.

# 2. Gogledd Cymru

Mae Gogledd Cymru'n cwmpasu siroedd Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'n cynnwys ardal amrywiol gan gynnwys ardaloedd trefol a gwledig, Parc Cenedlaethol Eryri, dau borthladd, rhanbarthau diwydiannol a threfi niferus. Mae llawer o'r trefi hyn yn denu nifer fawr o dwristiaid yn ystod misoedd yr haf.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn darparu gwasanaeth plismona i boblogaeth o 686,906[1] ac yn cynnwys ardal o 6,200 cilometr sgwâr. Mae oddeutu 1,700 o Swyddogion Heddlu, 200 o Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu a 1,100 o staff yr heddlu.

Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ("y Comisiynydd") yn un o 43 comisiynydd heddlu a throsedd yng Nghymru a Lloegr a etholwyd i oruchwylio gwaith yr heddlu lleol. Mae'r Ysgrifennydd Cartref yn arwain plismona'n genedlaethol. Mae'r Comisiynydd, ynghyd â Phrif Swyddogion, yn gyfrifol am blismona yng Ngogledd Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn sicrhau fod Heddlu Gogledd Cymru yn effeithlon ac effeithiol ac yn ceisio gwella cyflawniad a safonau yn y gwasanaeth plismona a gyflawnir i gymunedau Gogledd Cymru. Rhan o rôl y Comisiynydd ydy sicrhau fod gan bobl leol lais ynghylch sut y plismonir eu hardal ac i ddwyn y Prif Gwnstabl yn atebol o ran gwasanaethau a gyflwynir.




[1] Mapiau'r Cyfrifiad – Data rhyngweithiol Cyfrifiad 2021, Ystadegau Cenedlaethol Swyddogol

# 3. Ein Nod

Nod y cynllun hwn ydy bodloni ein dyletswyddau cyfreithiol. Wrth wneud hyn, rydym yn anelu lleihau neu ddisodli anfantais, gan gymryd camau i fodloni anghenion pawb, bod eu bod yn rhannu nodwedd warchodedig neu beidio, ac yn annog pobl gyda nodweddion gwarchodedig penodol er mwyn cyfranogi mewn bywyd cyhoeddus lle maent yn cael eu tangynrychioli. Yn y pen draw, rydym yn ceisio cynnig cyfle cyfartal i bawb. Wrth wneud, mae'n gwneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld yn y DU.



# 4. Dyletswyddau Penodol yng Nghymru

Mae gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswyddau penodol er mwyn cynorthwyo'r ddyletswydd gyffredinol. Gall y dyletswyddau penodol hyn fod yn wahanol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, gan arwain gosod dyletswyddau penodol gwahanol ym mhob gwlad.

Yn Lloegr, mae Rheoliadau 2011 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol) yn gofyn i awdurdodau lleol gyhoeddi amcanion a gwybodaeth am gydraddoldeb er mwyn dangos cydymffurfiaeth gyda'r ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol. Yng Nghymru, mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn mynd ymhellach ac yn cynnwys darpariaethau cywir am ymgysylltu (Rheoliad 5) ac asesiadau effaith cydraddoldeb (Rheoliad 8).

Ar ben hyn, gwnaeth Llywodraeth Cymru ddeddfu 'Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol' ym mis Mawrth 2021, sy'n gofyn i gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn cydweithio er mwyn ymdrin â chymhellwr mwyaf anghydraddoldeb yng Nghymru sef tlodi.

Fel 'cyrff heb eu datganoli', nid ydy Dyletswyddau Penodol Cymru a'r ddyletswydd gymdeithasol-economaidd yn berthnasol i un ai'r Heddlu na Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Fodd bynnag, mae'n hanfodol wrth fodloni ein dyletswyddau cydraddoldeb, rydym yn gweithredu yn ysbryd y ddyletswydd er mwyn cynorthwyo Llywodraeth Cymru a'n partneriaid sector cyhoeddus wrth ddisodli anfantais cymdeithasol-economaidd.

Mae talu sylw i'r ddyletswydd hon yn golygu ein bod yn gwneud penderfyniadau o natur strategol. Rydym yn ystyried sut orau i gyflawni canlyniadau gwell i'r rhai hynny sy'n profi anfantais cymdeithasol-economaidd. O ganlyniad, ystyriwyd y Ddyletswydd Cymdeithasol-economaidd wrth nodi ein hamcanion ar gyfer 2023-2027.

# 5. Y Gymraeg

Mae Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd wedi cydnabod arwyddocâd a phwysigrwydd y Gymraeg a dwyieithrwydd yn y sefydliad. Yn ei strategaethau Cymraeg, cydnabyddir fod y gallu i siarad Cymraeg yn sgil ychwanegol at sgiliau plismona eraill. Mae Polisi Sgiliau Cymraeg wedi'i ddatblygu sy'n cynnwys mentrau er mwyn gwella gallu dwyieithog yr Heddlu.

Yn unol â dyletswyddau o dan Safonau'r Gymraeg, mae'r Heddlu a'r Comisiynydd wedi creu Strategaeth y Gymraeg ar y Cyd. Bydd y Strategaeth, sy'n derbyn cymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg, yn cael ei ddiwygio hefyd yn 2023. Mae'n cynnwys ymrwymiadau i ddatblygu fel sefydliad dwyieithog a sicrhau dewis iaith wrth ddarparu gwasanaethau. Cefnogir hyn gan bolisi sgiliau Cymraeg sy'n cynnwys mentrau i wella gallu dwyieithog yr Heddlu.

Crëir Adroddiad Monitro Cymraeg Blynyddol bob blwyddyn er mwyn asesu cynnydd Heddlu Gogledd Cymru o ran Safonau'r Gymraeg. Mae'r adroddiad yn darparu data er mwyn amlygu cynnydd a chyflawniad yr Heddlu wrth ddatblygu a hyrwyddo'r Gymraeg i gyhoedd Gogledd Cymru a staff yr Heddlu. Mae'r Strategaeth yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus cynnal Safonau'r Gymraeg ac mae'n manylu'r camau a gymerir er mwyn bodloni'r dyletswyddau cyfreithiol a wnaethant eu hamlinellu.

# 6. Cynlluniau Cenedlaethol mewn Cyd-destun

Nid ydy cyflawni plismona yn ynysig. Mae rhannau allweddol o'r sector cyhoeddus a'r system cyfiawnder troseddol ehangach yn effeithio'n fawr ar blismona a chyflawni gwasanaethau plismona'n effeithiol. I'r perwyl hwn, rydym angen deall y gwaith neu ein partneriaid er mwyn sicrhau nad ydy gweithredu amcanion cydraddoldeb yn ynysig o'r gwaith sy'n cael ei gyflawni ledled Cymru a'r DU.

## 6.1 Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ddylai cyrff cyhoeddus yng Nghymru gadw mewn cof wrth lunio eu hamcanion eu hunain.

O fewn y cylch cynllunio ar gyfer gosod ein hamcanion, rydym hefyd wedi ystyried deddfwriaeth a Chynlluniau Gweithredu eraill yn cynnwys y canlynol

- Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhywedd Uwch
- Cynllun Gweithredu Gwrth Hiliaeth Cymru
- Cynllun Gweithredu Strategol Anableddau Dysgu
- Cynllun Gweithredu LHDTQ+ Cymru

Nid yw'n rhestr hirfaith.

## 6.2 Cynlluniau Plismona Cenedlaethol

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn anodd o ran sicrhau hyder cyhoeddus yn yr heddlu (a'r system cyfiawnder troseddol ehangach) ar gyfer pobl Ddu ac Ethnig Lleiafrifol. Roedd marwolaeth George Floyd yn 2020 yn drobwynt ledled y byd. Daeth hyn â sylw angenrheidiol ar sut y plismonir pobl ddu a'u profiad o fewn y system cyfiawnder troseddol. Bellach mae gennym ddau gynllun gweithredu sylweddol ar gyfer plismona gyda'r nod penodol o sicrhau canlyniadau tecach i bobl ddu a effeithir gan blismona a'r system cyfiawnder troseddol ehangach. Y rhain ydy:

### Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu CCPSH

Cafodd Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu CCPSH ei gyhoeddi yn 2022. Mae'n amlinellu'r mesurau penodol i'w cymryd gan heddluoedd er mwyn gwella tegwch yn sylweddol wrth blismona pobl ddu yng Nghymru a Lloegr. Wrth baratoi'r cynllun cydraddoldeb hwn, rydym wedi sicrhau fod agweddau perthnasol Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu yn cael eu hystyried er mwyn osgoi dyblygu

gwaith a sicrhau nad ydym yn colli neu'n anwybyddu gwaith perthnasol o fewn ein cynlluniau sy'n lleol i Ogledd Cymru.

## Cynllun Gwrth Hiliaeth Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru

Cafodd Cynllun Gwrth Hiliaeth Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2022 ac mae'n rhan o Gynllun Gweithredu Gwrth Hiliaeth Cymru. Mae hyn yn amlinellu'n benodol yr hyn fydd partneriaid cyfiawnder troseddol yng Nghymru yn ymgymryd er mwyn sicrhau cyflawni canlyniadau tecach a gwell i bobl ddu sy'n profi'r system cyfiawnder troseddol. Mae Heddlu Gogledd Cymru a SCHTh yn aelodau o Dasglu Gwrth Hiliaeth lle rydym yn gweithio gyda'i gilydd gyda'n partneriaid cyfiawnder troseddol yng Nghymru er mwyn gweithredu er mwyn cyflawni'r cynllun. Eto, wrth ysgrifennu'r cynllun hwn, rydym wedi sicrhau fod ein hamcanion yn ystyried y gwaith sydd eisoes ar y gweill yng Nghymru gyfan. Mae'r gweithgareddau a wnawn er mwyn bodloni gofynion cenedlaethol yn cyfrannu at ein cynllunio lleol hefyd.

# 7. Sut wnaethom ddatblygu ein hamcanion

Ers cyflwyno Deddf Cydraddoldeb 2010 mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi gosod amcanion strategol ar y cyd o fewn Cynllun Cydraddoldeb. Mae'r amcanion hyn wedi gyrru gwaith ynghylch cydraddoldeb dros y blynyddoedd sydd wedi galluogi'r ddau sefydliad fodloni gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Wrth baratoi'r cynllun hwn rydym wedi adlewyrchu ar gynlluniau blaenorol i sicrhau ein bod yn parhau i ddysgu a chynnal ein momentwm. Wrth ddatblygu'r amcanion hyn, rydym wedi ystyried y meysydd canlynol:

## Ymgysylltu ac Ymgynghori gyda Chymunedau a Staff

Rhaid i'n hymgysylltiad fod yn agored, cynhwysol a hygyrch i bawb sydd â diddordeb yn y gwaith hwn. Rydym yn cydnabod y dylai fod yn broses barhaus. Gwnawn barhau cynnwys pobl drwy oes ein Cynllun Cydraddoldeb, gan dynnu ar brofiad ystod eang o randdeiliaid er mwyn ysbrydoli ein gweithrediadau, gweld a ydym wedi llwyddo ac ystyried beth yn fwy sydd angen ei wneud.

Rydym wedi cynnal ymgysylltiad gyda chymunedau gan ddefnyddio fforymau ymgysylltu rhanddeiliaid presennol sefydledig. Mae'r Heddlu a'r Comisiynydd wedi ymgysylltu ac ymgynghori i ddeall blaenoriaethau plismona pobl a'r heriau cydraddoldeb sy'n codi o ganlyniad.

Mae ein proses ymgysylltu ac ymgynghori wedi'i gwreiddio'n gadarn er mwyn ein galluogi i glywed ac ymateb yn barhaol at beth sydd gan ein cymunedau amrywiol i'w ddweud am wasanaethau plismona yng Ngogledd Cymru. Yn ychwanegol, rydym wedi ymgymryd ag ymgysylltiad pellach gyda'n rhwydweithiau staff mewnol a'n partneriaid sector cyhoeddus.

## Dadansoddi Gwybodaeth wrth Ymgysylltu ac Ymgynghori

Ar y cyd â rhanddeiliaid, gwnaethom adolygu'r amcanion a sefydlwyd o dan y Cynllun Cydraddoldeb blaenorol er mwyn gwybod yr hyn ddylem ei flaenoriaethu ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Gwnaethom ofyn i'n rhanddeiliaid beth oedd bwysicaf pan oedd hi'n dod i hyrwyddo problemau am gydraddoldeb a thegwch o fewn y gwasanaeth plismona. Ceir Adroddiad Ymgynghori ac Ymgysylltu yma, Mae hwn yn amlinellu'r adborth gan ein Harolwg Cynllun Cydraddoldeb cyhoeddus diweddaraf.

## Ymchwil Lleol a Chenedlaethol

Fel yr amlinellwyd uchod, mae cynlluniau, adroddiadau a dogfennau amrywiol a wnaiff gynorthwyo ysbrydoli ein cynlluniau cyflawni a'n gweithgarwch. Mewn ymateb i faterion a phatrymau plismona presennol, mae cynlluniau gweithredu cenedlaethol, dogfennau canllaw a phecynnau cymorth a wnaiff gynorthwyo ysbrydoli ein cynlluniau cyflawni a'n gweithgarwch.

## Gweithio mewn Partneriaeth

Rydym yn cydnabod nad ydy plismona'n digwydd mewn gwactod. Mae deall y darlun partneriaeth yng Ngogledd Cymru yn bwysig i ni. Fe wnawn barhau i weithio ar y cyd a'n partneriaid er mwyn galluogi darparu gwasanaeth cyhoeddus mwy effeithiol ledled ein cymunedau.[2]

Rydym hefyd yn gweithio gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (y Rhwydwaith). Mae'r Rhwydwaith hwn yn cynnwys sawl partner lleol gan gynnwys chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ynghyd â'r Heddlu a SCHTh.  Ystyrir y gweithio mewn partneriaeth drwy'r Rhwydwaith yn agwedd arfer gorau i gydraddoldeb drwy gydweithredu. Yn flaenorol, mae wedi derbyn clod gan weinidogion Cymru.

## Data Lefel yr Heddlu

Mae gwybodaeth a gadwyd ar systemau data Heddlu Gogledd Cymru hefyd wedi hysbysu ein hamcanion cydraddoldeb. Mae'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol wrth ateb cwestiynau fel 'A adlewyrchir y tueddiadau cenedlaethol yng Ngogledd Cymru?'. Mae'n caniatáu i ni nodi mwy o broblemau lleol penodol na nodir efallai yn genedlaethol.

## Edrych Ymlaen

Fel gyda chynlluniau blaenorol rydym yn cydnabod pwysigrwydd edrych i'r dyfodol, am ddatblygiadau mewn deddfwriaeth, materion yn codi a chyfleoedd i groesawu newid pellach. Rydym wedi gweld dros nifer o flynyddoedd sut y gall digwyddiadau anhysbys y dyfodol ddwysau'n sydyn i roi pryderon neu gyfleoedd i gymunedau gwahanol. Gall y digwyddiadau hyn ddatblygu'n sydyn ac fel arfer mae ganddynt gysylltiadau clir a phwysig yn ôl at ein hamcanion cydraddoldeb. Mae'n bwysig ein bod yn croesawu'r datblygiadau hyn ac yn barod am newid pan mae angen. Fe wnawn gynnal meddylfryd blaengar er mwyn cydnabod pa effeithiau cydraddoldeb posibl fydd yn y dyfodol.

[2] https://www.northwales.police.uk/police-forces/north-wales-police/areas/about-us/about-us/our-partners/

# 8. Ein Hamcanion

Gan ystyried yr uchod i gyd ac ystyried ein dyletswyddau fel darparwr gwasanaeth ac fel cyflogwr, rydym wedi penderfynu ar bum amcan cydraddoldeb o dan y penawdau canlynol:

**Llywodraethu Effeithiol** – Wrth fodloni ein dyletswyddau cydraddoldeb, fe wnawn arfer llywodraethu effeithiol, bod yn dryloyw a sicrhau goruchwyliaeth gyhoeddus.

**Ein Cyhoedd** – Annog cyfranogaeth a sicrhau nad ydy pobl yn cael eu plismona ormod ac yn cael digon o warchodaeth.

**Ein Partneriaid** - Gweithio gyda phartneriaid er mwyn gwella ein cyflawniad cydraddoldeb.

**Ein Sefydliad** - Creu amgylchfyd cynorthwyol sy’n creu diwylliant cynhwysol.

**Ein Gweithlu** - Cyflawni gweithlu sy’n cynrychioli ac sy’n broffesiynol, sy’n cynnwys pobl gyda’r sgiliau cywir.

# 9. Sut y gwnawn gyflawni

Er mwyn sicrhau bod ein hymroddiad yn cael ei fesur a'i brofi, byddwn yn creu a chynnal Cynlluniau Cyflawni unigol ar gyfer pob un o'r amcanion uchod. Mae'r Cynlluniau Cyflawni hyn yn nodi'r gweithgareddau a wnawn er mwyn cynorthwyo a gwella ein gwaith. Ein nod ydy sicrhau ein bod yn cyflawni gwasanaeth teg i gymunedau Gogledd Cymru.

Gwnawn gynnal ein hymdriniaeth bresennol o gyfarfodydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar lefel gwasanaeth, gyda phob un gyda'u hagendau a chynlluniau pwrpasol. Bydd y cyfarfodydd hyn yn adrodd wrth Fwrdd Tactegol ar lefel yr Heddlu. Bydd hyn yn sicrhau rheoli gweithgarwch yn effeithiol. Yn olaf, bydd y Bwrdd Strategol yn cael gwybod am y gwaith hwn. Bydd y Bwrdd hwn yn goruchwylio ac yn perchnogi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a gwnaiff sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'r diben.

Gwnawn barhau i ymgynghori ac ymgysylltu â'n cymunedau a staff i sicrhau bod ein Hamcanion Cydraddoldeb a Chynlluniau Cyflenwi bob amser yn berthnasol, yn sicrhau bod barn pob un o'n rhanddeiliaid allweddol yn parhau i hysbysu ein gweithgareddau.

Byddwn yn parhau i adolygu ein Hamcanion Cydraddoldeb bob blwyddyn fel rhan o'n prosesau adrodd blynyddol a sicrhau bod ein gweithgareddau yn rhoi canlyniadau positif i'r holl rai sy'n cael eu heffeithio ganddynt.

# Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd
2023-2027

HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

87975.